

---

# BWLETIN POLISI CYTÛN

## CYTÛN POLICY BULLETIN

### JANUARY / IONAWR 2012

---



## ADOLYGIAD I'R FARCHNAD CYMWYSTERAU YNG NGHYMRU

**Yn dilyn adroddiadau ynghylch seminarau arholi a gynhaliwyd gan fyrddau arholi, mae Gweinidog Addysg Cymru Leighton Andrews wedi cyhoeddi Adolygiad i strwythur y farchnad cymwystrau cyffredinol yng Nghymru.**

Bydd yr Adolygiad yn edrych ar yr effaith mae strwythur y farchnad yn ei chael ar safonau mewn cymwystrau TGAU a Safon Uwch, a bydd hefyd yn asesu pa mor effeithiol yw'r strwythur hwnnw – gan nodi opsiynau ar gyfer newidiadau ac argymhellion. Bydd yr Adolygiad yn adrodd yn ôl ar ei argymhellion ar ôl tri mis.

Mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn Lloegr, Y Gwir Anrhydeddus Michael Gove, a Glenys Stacey, Prif Weithredwr Ofqual, yn eu hysbysu am yr Adolygiad, ac mae wedi gofyn iddyn nhw roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am unrhyw ddatblygiadau am honiadau yn erbyn cyrff dyfarnu, gan gynnwys CBAC, sy'n dyfarnu cymwystrau TGAU a Safon Uwch i ymgeiswyr yng Nghymru.

Dyma gylch gorchwyl yr Adolygiad:

- asesiad o effaith y strwythur marchnad presennol o gyrrff dyfarnu ar safonau mewn cymwystrau TGAU a Safon Uwch;
- asesu pa mor effeithiol yw'r strwythur marchnad presennol;
- nodi opsiynau ar gyfer newidiadau ac argymhellion.

#### ***Tasgau allweddol***

- Casglu ynghyd ac adolygu gwybodaeth am y system bresennol o redeg cyrff dyfarnu yng Nghymru ar gyfer cymwystrau TGAU a Safon Uwch.
- Ymgynghori gyda rhanddeiliaid perthnasol.
- Dadansoddi a yw cystadleuaeth ar gyfer cyfran o'r farchnad wedi cael effaith negyddol ar safonau, ac i ba raddau.
- Adolygu manteision ac anfanteision y model presennol, ble mae nifer o gyrrff dyfarnu yn cynnig yr un cymhwyster.
- Ystyried y drafodaeth sy'n canolbwyntio ar y mater hwn yn Lloegr ar hyn o bryd, archwilio'r model sy'n gweithredu yn yr Alban ac ystyried cymariaethau rhyngwladol.
- Archwilio modelau amgen posib ar gyfer y dyfodol, gan gynnig dadansoddiad o'u heffeithlonrwydd.
- Archwilio goblygiadau cyfreithiol unrhyw newid posib.
- Darparu adroddiad Arfarniad Opsiynau i'r Gweinidog, o fewn tri mis i gychwyn yr Adolygiad, yn nodi argymhellion i'w hystyried ganddo.

## **CYHOEDDI GWYBODAETH AM FANDIO YSGOLION**

**Cyhoeddwyd gwybodaeth bandio ar gyfer holl ysgolion uwchradd Cymru gan Lywodraeth Cymru.**

Mae bandio yn rhannu ysgolion, ar sail eu perfformiad, yn bum band – o Fand 1, sef ysgolion sy'n perfformio'n dda, i Fand 5, sef ysgolion y mae angen i'w perfformiad wella. Mae gwybodaeth am ba mor dda y mae disgyblion 15-16 oed wedi perfformio mewn arholiadau, a'u lefelau presenoldeb, yn cael eu defnyddio i fandio ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried lefelau tlodi ymhlith disgyblion yr ysgol, gan fod hynny'n gallu cael effaith ar yr hyn y mae ysgol yn gallu ei gyflawni.

Dywedodd Gweinidog Addysg Cymru, Leighton Andrews, "nid proses ar gyfer gosod labeli ar ysgolion nac ar gyfer codi cywilydd yw bandio, na llunio tablau cynghair bras. Yn hytrach, mae'n rhannu ysgolion yn grwpiau er mwyn nodi pa rai mae angen ein cefnogaeth ni arnyn nhw a pha rai y gallwn ni ddysgu oddi wrthyn nhw. Nawr, byddwn yn archwilio beth yw'r ffordd orau o gynnig cefnogaeth i'r ysgolion hynny sydd yn y bandiau is, fel y gallan nhw ddechrau cymryd camau i wella."

Defnyddir pedwar grŵp o ddata i gyfrifo perfformiad cymharol ysgolion:

- Nifer y disgyblion sy'n ennill pum gradd C neu uwch mewn TGAU neu gymwysterau cyfwerth.
- Pwyntiau cyfartalog pob disgybl 15 oed ar gyfer yr wyth canlyniad TGAU gorau, neu ganlyniadau cyfwerth. Mae'r wyth sgôr uchaf yn cael eu defnyddio er mwyn annog ysgolion i ganolbwyntio ar gael graddau uwch, yn hytrach na chael mwy o TGAU ar raddau is.
- Perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg.
- Presenoldeb.

Ar draws y grwpiau, mae perfformiad cymharol yn cael ei fesur ar sail y perfformiad gwirioneddol a'r cynnydd dros amser, a pherfformiad mewn perthynas â chyfran y disgyblion yn yr ysgol sy'n dod o gefndiroedd cymharol ddifreintiedig, ar sail hawl y disgyblion i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r dulliau hyn o fesur yn adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, sef gwella llythrennedd, rhifedd a phresenoldeb, a lleihau'r effaith y mae amddifadedd yn ei chael.

Mae'r broses wedi'i chynllunio er mwyn helpu awdurdodau lleol i gefnogi eu hysgolion yn fwy effeithiol, gan godi safonau a pherfformiad yng Nghymru. Bydd disgwyl i ysgolion sy'n perfformio'n dda rannu eu harfer da yn eang, er mwyn helpu ysgolion sydd â lefel isel o berfformiad.

## **AMDDIFFYN PLANT YNG NGHYMRU: YMARFER PLANT AML-ASIANTAETH**

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn am drefniadau arfaethedig newydd ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant (CPR).

Diben y fframwaith newydd yw disodli'r system Adolygiadau Achosion Difrifol bresennol. Fel rhan o'r fframwaith CPR newydd, cynhelir gwahanol fathau o adolygiadau yn dibynnu ar natur y digwyddiad ac amgylchiadau'r plentyn o dan sylw.

Trefnwyd dau weithdy ar gyfer ymarferwyr i ddarparu manylion pellach. Cynhelir y cyntaf yn Abertawe ar 20 Ionawr 2012 a'r ail yng Nghonwy ar 14 Mawrth 2012.

**Diwedd yr ymgynghoriad: 02/04/2012**

## **CYNIGION I DDIWYGIO'R GOFYNION AR GYFER COFRESTRU'R GWEITHLU ADDYSG YNG NGHYMRU**

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu'r cynigion ar gyfer y dyfodol o ran cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru.

Ym mis Chwefror 2011, cyflwynodd y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau ei agenda i godi safonau addysg yng Nghymru.

I gyflawni'r agenda hon, mae'r Gweinidog eisiau sicrhau bod y gweithlu addysg yn gweithio gyda'i gilydd fel un grŵp cydlynus o weithwyr proffesiynol i wella safonau addysg ar gyfer pobl Cymru.

Mae cryn wahaniaeth rhwng y gofynion ar gyfer safonau proffesiynol, cymwysterau, hyfforddiant cychwynnol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus ar draws amryfal sectorau'r gweithlu addysg. Er bod rhai o'r gwahaniaethau hyn yn dra phriodol ac yn adlewyrchu gwahaniaethau go iawn yng ngofynion y sectorau, mae yna wahaniaethau eraill, artiffisial, sy'n rhwystro cydweithredu a symudedd ymhlith y gweithlu. Nid ydyw'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd chwaith fod pob gweithiwr addysg proffesiynol yn arddel safonau uchel tebyg o ymddygiad a chymhwysedd proffesiynol, ac felly gall danseilio parch cydradd.

Mae potensial i gorff sy'n cofrestru'r gweithlu addysg fod yn bartner allweddol yn y broses o sicrhau gwell cydlyniant. Gallai gefnogi'r agenda ar gyfer gwella a gallai fonitro, ac o bosibl helpu i godi safonau gan gynnal a meithrin hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Mae cwmpas a swyddogaethau'r Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) fel y maen nhw wedi'u cyfansoddi ar hyn o bryd yn rhy gul i gyflawni hyn yn llwyr.

## Y Newidiadau Arfaethedig

Y bwriad yw ailgyfansoddi'r CyngACC neu sefydlu corff newydd i gofrestru addysg yng Nghymru. Fan lleiaf, bydd y corff hwn yn cofrestru athrawon ysgol i sicrhau mai dim ond y rheini sydd wedi cymhwyso ac sy'n addas i weithio gaiff addysgu yng Nghymru. Gofynnir am farn am gwmpas a swyddogaethau ehangach y corff cofrestru a chynigir:

- bod gwaith y corff yn cael ei oruchwylio gan y proffesiwn. Gallai hyn gael ei gyflawni drwy gyngor proffesiynol sy'n cynnwys pobl ag arbenigedd yn y sectorau a'r swyddogaethau a gwmpesir gan y corff, neu gyfres o gynghorau sector a phob un ohonyn nhw'n gyfrifol am ran benodol o'r gweithlu
- bod cwmpas y corff yn cael ei ymestyn i gynnwys y gweithlu addysg ehangach yn hytrach nag athrawon yn unig. Byddai hyn yn cynnwys, fan lleiaf, staff cymorth dysgu ysgolion, darlithwyr addysg bellach a'r gweithlu dysgu seiliedig ar waith, a thrwy'r ymgynghoriad hwn mae'r Llywodraeth yn ystyried a ddylid cynnwys categorïau ychwanegol o staff, ac yn awyddus i gael barn am hyn. Cynigir cofrestru categorïau ychwanegol y gweithlu addysg fesul cam, fel y bydd modd creu darlun cyflawn o'r holl weithlu dros amser
- y dylid ehangu swyddogaethau posibl y corff fel bod iddo ran allweddol mewn pennu safonau ar gyfer y gweithlu addysg ac mewn monitro'r safonau hynny. Bydd y swyddogaethau'n cael eu cyflwyno'n raddol, a hynny pan fydd y Gweinidog o'r farn bod y corff yn barod i'w hysgwyddo. Gallai'r swyddogaethau gynnwys cymeradwyo cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon, y gofynion ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a gosod safonau proffesiynol
- y dylai'r rheini sy'n cofrestru gyda'r corff dalu ffi gofrestru. Cynigir osgoi strwythur cymhleth o ffioedd a fyddai'n gostus i'w gweinyddu, ond byddai'n ystyried cyfres gyfyngedig o ffioedd amrywiol, os gellid eu cyfiawnhau'n briodol
- law yn llaw â'r newidiadau hyn, dylem ystyried hefyd y gwahaniaethau yn y gofynion ar gyfer cymwysterau, safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol, ac ystyried a allai mwy o gydlyniant ar draws y materion hyn helpu ein hymgyrch i wella safonau
- bydd cais am bwerau eang yn y Bil Addysg arfaethedig er mwyn i'r newidiadau hyn ddod i rym.

**Diwedd yr ymgynghoriad: 30/03/2012**

## **ADOLYGIAD LLAWN O BROFFILIAU ASESU DATBLYGIAD PLENTYN**

Mae Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, wedi cyhoeddi adolygiad llawn o'r trefniadau asesu ar gyfer plant pan fyddant yn dechrau yn y Cyfnod Sylfaen – sef y cyfnod dysgu cyntaf ar gyfer plant rhwng 3 a 7 oed.

Bydd arbenigwr annibynnol yn cynnal yr adolygiad, ac mae disgwyl iddo gael ei benodi ym mis Mawrth. Bydd Proffil diwygiedig yn cael ei gyflwyno o ddechrau blwyddyn ysgol 2013/14. Am weddill y flwyddyn hon, gall ysgolion barnau i ddefnyddio'r Proffil presennol, fel y gwnaethant yn ystod tymor yr hydref, er mwyn sicrhau cysondeb. Fodd bynnag, gan fod peth anghysondeb wedi bod ar draws Cymru, ni fydd gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno'r canlyniadau i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn.

## **YMGYNGHORIAD AR GRANTIAU GOFAL CYMUNEDOL A BENTHYCIADAU ARGYFWNG AR GYFER TREULIAU BYW**

**Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio barn ar ddisodli'r Grantiau Gofal Cymunedol a'r Benthyciadau Argyfwng ar gyfer treuliau byw unwaith y caiff yr arian ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2013.**

Mae'r Bil Diwygio Lles sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd yn diddymu'r Gronfa Gymdeithasol ddewisol ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer darparu gwasanaethau lleol newydd i ddisodli Grantiau Gofal Cymunedol a Benthyciadau Argyfwng ar gyfer treuliau byw cyffredinol.

O fis Ebrill 2013 caiff y Gronfa Gymdeithasol ei datganoli i awdurdodau lleol yn Lloegr, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael swm o arian sy'n cyfateb i'r hyn a wariwyd ar y Grantiau Gofal Cymunedol a'r Benthyciadau Argyfwng yng Nghymru ar yr adeg y caiff cyfrifoldeb ei drosglwyddo.

**Diwedd yr ymgynghoriad: 30/03/2012**

## **CYHOEDDI ADRODDIAD YN GWERTHUSO DECHRAU'N DEG**

Mae'r Dirprwy Weinidog Plant, Gwenda Thomas, wedi ymateb i gyhoeddi'r arolwg cyntaf o'r rhaglen Dechrau'n Deg, gan ddweud y byddai'r adroddiad yn cynnig tystiolaeth ddefnyddiol wrth i'r rhaglen ymestyn a datblygu.

Mae'r adroddiad yn rhoi cipolwg o natur Teuluoedd Dechrau'n Deg a'r heriau maent yn eu hwynebu. Mae'n cynnig cyfoeth o wybodaeth am y defnydd a'r profiad o Dechrau'n Deg o safbwynt teuluoedd.

Meddai Gwenda Thomas: “Beth sy’n fy nharo i am yr adroddiad hwn yw bod y rhieni yn yr ardaloedd lle mae’r rhaglen ar waith yn gadarnhaol iawn am effaith y rhaglen Dechrau’n Deg. Mae hynny’n cyd-fynd â’r hyn rwyf finnau wedi ei glywed gan rieni a staff rheng flaen sy’n ymwneud â darparu’r rhaglen, yn ogystal â’r sylfaen dystiolaeth ehangach ar gyfer y rhaglen.”

“Rhaid i ni gofio bod yr ardaloedd lle mae Dechrau’n Deg yn gweithredu ymysg y mwyaf difreintiedig yng Nghymru a bod y teuluoedd yn yr ardaloedd hynny yn rhai o’r anoddaf i’w cyrraedd. Rhaid ystyried yr adroddiad o fewn y cyd-destun hwnnw. Dylem gofio hefyd ei bod yn ddyddiau cynnar i’r rhaglen o hyd, ac rwy’n disgwyl gweld gwelliannau pellach dros y tymor hir. Mae’n bwysig ein bod yn parhau i werthuso effaith y rhaglen, a bydd yr adroddiad hwn yn cynnig tystiolaeth y gallwn ei defnyddio i’w datblygu a’i hehangu.”

Bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad i’r Cynulliad Cenedlaethol am yr adroddiad yn gynnar yn 2012.

## **MATERION YNGHYLCH RHOI ORGANAU:**

### **Y PRIF WEINIDOG YN ANNOG PAWB I ROI’R RHODD O FYWYD**

**Cyn y Nadolig, bu Prif Weinidog Cymru Carwyn Jones yn ymweld â Chanolfan Arennau Plant Sefydliad Aren Cymru yn Ysbyty Athrofaol Caerdydd, er mwyn annog pawb i roi’r rhodd o fywyd y Nadolig hwn drwy ymuno â’r gofrestr rhoddwyr organau.**

Cyfarfu â’r staff a phlant yn y ganolfan sy’n aros am drawsblaniad. Mae Canolfan Arennau Plant Sefydliad Aren Cymru yn cynnig gofal arbenigol i blant sy’n gleifion preswyl ac sy’n dioddef o glefyd neu fethiant yr arenau.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar sut y byddai system feddal o optio allan ar roi organau a meinweoedd yng Nghymru yn gweithio.

Bu Llywodraeth Cymru yn cynnal digwyddiadau ymgynghori ledled Cymru yn y misoedd diwethaf, ac mae’n parhau i wneud hynny. Cyn y Nadolig cynhaliwyd un digwyddiad o’r fath yn benodol ar gyfer grwpiau ffydd.

Mae Eglwysi Cymru yn parhau i ymgyrchu yn erbyn y cynigion, gan fynnu na fydd y cynigion yn llwyddo i sicrhau’r enillion y mae’r Llywodraeth yn dymuno’i gweld, ac yn mynnu yn hytrach bod angen gwneud mwy o waith i gofrestru mwy o roddwyr yng Nghymru. Mae arweinwyr y prif gymunedau Cristnogol yng Nghymru i gyd wedi siarad yn erbyn y cynigion, gan gynnwys y Dr Barry Morgan, Archesgob Cymru; Archesgob Wrecsam, Edwin Reagan, a Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru, Gareth Morgan Jones.

Yn y cyfamser, mae sylfaenydd Virgin, Syr Richard Branson, wedi llongyfarch Gweinidog Iechyd Cymru Lesley Griffiths am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gyflwyno system optio allan feddal ar gyfer rhoi organau.

## **GWEINIDOG YN AILADRODD YMRWYMIAD LLYWODRAETH CYMRU I LEIHOU MARWOLAETHAU SY’N GYSYLLTIEDIG Â CHYFFURIAU**

**Mae’r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant, wedi dweud bod Llywodraeth Cymru wedi’i hymrwymo i leihau nifer y marwolaethau sy’n gysylltiedig â chyffuriau ar draws Cymru.**

Wrth nodi Diwrnod Ymwybyddiaeth Gorddos Cymru, dywedodd y Gweinidog bod camddefnyddio sylweddau yn parhau i gael effaith ddinistriol ar unigolion a’u teuluoedd a’u ffrindiau. Yn ystod 2010 bu 152 o farwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru. Er mwyn ceisio gostwng y nifer hwn mae menter sy’n ceisio atal gorddosau bellach wedi’i rhoi ar waith ar draws Cymru.

Mae’r Cynllun Achub Nalocson yn y Cartref yn cynnig citiau Nalocson yn rhad ac am ddim i’r holl ddefnyddwyr cyffuriau sydd mewn perygl o gymryd gorddos. Gwnaed y penderfyniad i roi’r cynllun ar waith ar draws Cymru gan y Gweinidog ym mis Mai yn dilyn gwerthusiad llwyddiannus o’r cynlluniau peilot a wnaed dros y ddwy flynedd diwethaf mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru. Hyd yma mae dros 1,000 o gitiau Nalocson wedi’u dosbarthu ar draws Cymru gyda dros 100 ohonynt yn cael eu defnyddio i wrthweithio effeithiau gorddos.

## **MATERION GWLEDIG: DIWYGIO PAC**

**Mae Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd Cymru, Alun Davies, wedi galw ar bobl Cymru i leisio barn ynghylch diwygio’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), ac wedi cyhoeddi dogfen drafod er mwyn ysgogi’r drafodaeth.**

Daw “Diwygio’r Polisi Amaethyddol Cyffredin; Sgwrs am y ffordd ymlaen yng Nghymru” yn dilyn cyhoeddi Rheoliadau drafft y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer diwygio’r PAC ymhellach, a ddaw i rym ar Ionawr 1af 2014 ar ôl iddyn nhw gael eu cymeradwyo.

Mae’r PAC yn cefnogi ffermwyr yng Nghymru drwy daliadau uniongyrchol a chefnogaeth o fath arall o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru. Mae hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gynnal diwydiant ffermio Cymru, a chydlynu elfennau economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cefn gwlad Cymru.

Gellir cyflwyno ymatebion i’r ddogfen o 19 Rhagfyr 2011 hyd 31 Mawrth 2012. Gellir dod o hyd i’r ddogfen [yma](#) (cyswllt ar waelod y dudalen).

**GERAINT HOPKINS,**

**SWYDDOG POLISI,**

**CYTÛN – EGLWYSI YNGHYD YNG NGHYMRU**